



Y Gwir Anrh Yr Arglwydd Thomas o Gwmgiedd  
Cadeirydd  
Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

26 Gorffennaf 2019

Annwyl Arglwydd Thomas

Yn fy sesiwn dystiolaeth i'r Comisiwn ar 19 Mehefin, ymrwymais i ddarparu rhagor o dystiolaeth ar rai o'r materion y buom yn eu trafod. Mae'r pwyntiau am y system ofal a niferoedd y plant sy'n cael eu rhoi mewn gofal wedi cael eu hamlinellu gan swyddogion yn yr Atodiad sydd ynghlwm. Rwyf wedi ymdrin â'r pwyntiau eraill isod.

### **Cyllideb Les yr Alban**

Soniais am yr anghysondeb rhwng cost gweinyddu cyllideb les yr Alban a'r swm sy'n cydfynd â throsglwyddo cyfrifoldebau. Mae'r memorandwm ariannol i Fil Nawdd Cymdeithasol (yr Alban)

([https://www.parliament.scot/S5\\_Bills/Social%20Security%20\(Scotland\)%20Bill/SPBill18FM/S052017.pdf](https://www.parliament.scot/S5_Bills/Social%20Security%20(Scotland)%20Bill/SPBill18FM/S052017.pdf)) yn nodi trosglwyddiad o £66 miliwn y flwyddyn, yn ogystal â swm unigol o £200 miliwn am weithredu'r pwerau a ddatganolwyd yn ddiweddar, gydag amcangyfrif o £308 miliwn dros bedair blynedd am weithredu, a ffigur o £144-156 miliwn am gostau cynnal.

### **Datganoli Cyfiawnder yn Raddol**

Gofynnwch am ragor o wybodaeth am y posibilrwydd o ddatganoli cyfiawnder yn raddol, ac yn benodol, a fyddai hyn yn lleihau ein hyblygrwydd i adleoli adnoddau yn unol â'n blaenoriaethau. Rydych yn codi pwynt diddorol ac mae hyn yn rhywbeth y bydd angen i ni ei ystyried ymhellach ac yn fanylach.

Mae'n hanfodol fod rhaid sicrhau cyllid teg a chyfiawn i gyd-fynd ag unrhyw fath o ddatganoli swyddogaethau cyfiawnder. Fodd bynnag, o'n profiad ni, rydym wedi derbyn llai o adnoddau ar y cyfan na'r hyn y byddai ei angen arnom i gyflawni'r swyddogaeth. Mae'n bosibl y gallai defnyddio dull graddol leihau'r risg ariannol, neu wasgaru'r risg dros gyfnod hwy, gan y byddai pob cam ar raddfa lai na'r swyddogaeth gyfan. Fodd bynnag, mae hefyd yn bosibl ac yn fwy tebygol y byddai datganoli cyfiawnder, boed yn raddol neu fel pecyn cyflawn, yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â risg ariannol fawr, yn enwedig

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[YP.PrifWeinidog@llyw.cymru](mailto:YP.PrifWeinidog@llyw.cymru) • [ps.firstminister@gov.wales](mailto:ps.firstminister@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

yng nghyd-destun y cyni ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae'n debygol y byddai yna wahanol oblygiadau, gan ddibynnu ym mha drefn y byddai swyddogaethau'n cael eu datganoli.

O'r herwydd, mae'n anodd darparu unrhyw ddadansoddiad manwl o oblygiadau dull graddol yn yr amser sy'n weddill ar gyfer eich trafodaethau. Yn gyffredinol, fodd bynnag, rydym yn derbyn bod cyfyngiadau i ddefnyddio dull graddol, ac y byddai proses lawn o ddiwygio i greu system gyfiawnder flaengar yn ei gwneud yn ofynnol inni allu ailflaenoriaethu rhai o'r symiau mawr sy'n cael eu gwario ar hyn o bryd, er enghraifft ar garchardai. Mae hyn yn rhywbeth y bydd angen i ni ei ystyried yn ofalus pan fyddwn yn rhoi ein hymateb mwy ymarferol i'ch ystyriaeth strategol.

## **Cyllid i liniaru Toriadau Cymorth Cyfreithiol**

Gofynnoch am eglurhad am y ffigurau ar gyfer y cyllid rydym wedi ei ddarparu ar gyfer cyngor ar les cymdeithasol i helpu i liniaru rhai o'r problemau sy'n deillio o doriadau i Gymorth Cyfreithiol gan Lywodraeth y DU.

Ar hyn o bryd, mae ein Huned Cynhwysiant Ariannol yn darparu £5.97 miliwn bob blwyddyn i bum sefydliad sy'n darparu gwasanaethau gwybodaeth a chynghori ar les cymdeithasol ym mhob un o 22 ardal yr awdurdodau lleol a gwasanaethau ar gyfer Cymru gyfan.

Caiff y gwasanaethau cynghori a ariennir eu cyflwyno drwy'r prosiectau canlynol:

Cyngor Da, Byw'n Well – ymgyrch gyffredinol i annog pobl i fanteisio ar fudd-daliadau lles, a lansiwyd yn 2001. Mae'r prosiect yn gweithredu ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol. Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn derbyn **£2.2 miliwn y flwyddyn** mewn cyllid grantiau i gynnal y prosiect.

Gwasanaethau Cynghori â Ffocws Cymunedol (adnabuwyd gynt fel Cyllido ar Sail Canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf) – cyflwynwyd y prosiect yn 2013, a'i nod yw gwella gallu ariannol aelwydydd mewn rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru a sicrhau bod ganddynt gymaint o incwm â phosibl. Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn derbyn **£1.5 miliwn y flwyddyn** mewn cyllid grantiau i gynnal y prosiect.

Grant Gwasanaethau Cynghori Rheng Flaen – cyflwynwyd y prosiect hwn yn 2014 fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i doriadau Llywodraeth y DU i gymorth cyfreithiol a leihaodd gyllid ar gyfer achosion lles cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r prosiect yn darparu cyngor arbenigol ar faterion yn ymwneud â budd-daliadau lles; dyled; tai a gwahaniaethu. Mae Cyngor ar Bopeth Cymru, Shelter Cymru, Age Cymru, Snap Cymru a Tenovus yn derbyn cyfanswm o **£2.2 miliwn y flwyddyn** mewn cyllid grantiau i gynnal y prosiect hwn.

## **Y rhyngweithio rhwng Llywodraeth Cymru a'r farnwriaeth**

Yn olaf, gofynnoch am wybodaeth ynghylch perthynas Llywodraeth Cymru â'r farnwriaeth.

*Rhyngweithio â Gweinidogion*

Cynhaliwyd cyfarfodydd o bryd i'w gilydd rhwng fy rhagflaenydd a minnau a'r Arglwydd Brif Ustus, ac roedd y Cwnsler Cyffredinol yn bresennol gan amlaf. Sefydlwyd cyfarfodydd

blynyddol yn ddiweddar hefyd rhwng y Prif Weinidog a Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Fodd bynnag, o ran gweinidogion Llywodraeth Cymru, y Cwnsler Cyffredinol sy'n rhyngweithio fwyaf â'r farnwriaeth.

Sefydlwyd cyfarfodydd rheolaidd gydag un o ustusiaid y Goruchaf Lys - yr Arglwydd Lloyd Jones yn fwyaf diweddar - i drafod materion o ddiddordeb i'r ddwy ochr. Mae presenoldeb y Cwnsler Cyffredinol mewn digwyddiadau a chynadleddau ad hoc lle mae'r farnwriaeth yn bresennol hefyd wedi galluogi rhyngweithio sy'n fwy anffurfiol, ond nid yn llai pwysig. Mae'n werth nodi Cynhadledd Gyfreithiol flynyddol Cymru yn arbennig gan ei bod yn cynnwys siaradwyr a thrafodaethau am faterion a datblygiadau cyfreithiol sy'n berthnasol yn benodol i Gymru a Llywodraeth Cymru.

Cynhaliwyd cyfarfodydd hefyd rhwng Ysgrifennydd blaenorol y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, oedd â chyfrifoldeb am faterion cyfiawnder, a'r Arglwydd Brif Ustus, a hefyd y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol blaenorol a Mr Ustus Nicholas Francis.

### *Rhyngweithio swyddogol*

Yn yr un modd â'r Prif Weinidog, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Arglwydd Brif Ustus.

Er nad yw'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Jeff Godfrey, yn cwrdd ag aelodau'r farnwriaeth yn rheolaidd drwy ei hawl ei hun, mae'n aml yn mynychu cyfarfodydd rhwng Gweinidogion, y Cwnsler Cyffredinol a'r Ysgrifennydd Parhaol ac uwch farnwyr. Yn ychwanegol, yn yr un modd â'r Cwnsler Cyffredinol, gwneir cysylltiadau anffurfiol hefyd mewn digwyddiadau a chynadleddau sy'n cynnwys grwpiau cyfreithiol ehangach fel Cynhadledd Gyfreithiol Cymru.

Mae'r rhyngweithio ffurfiol mwyaf rheolaidd â'r farnwriaeth ar lefel swyddogol yn digwydd yn y rhannau hynny o'r sefydliad sydd â chyfrifoldebau'n ymwneud â phlant a theuluoedd.

Mae Nigel Brown, Prif Weithredwr Cafcass Cymru wedi cyfarfod â Syr Andrew Macfarlane, Llywydd yr Adran Deulu. Caiff ei wahodd i fynychu ei gynhadledd flynyddol â'r holl Farnwyr Teulu Dynodedig yng Nghymru a Lloegr. Mae hefyd yn mynychu cyfarfodydd a gadeirir gan y Barnwr ar faterion yn ymwneud â'r system cyfiawnder teuluol, gan gynnwys presenoldeb ar y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol.

Mae Mr Brown hefyd yn cyfarfod â Mr Ustus Francis, Uwch Farnwr Cyswllt ar gyfer y Llys Teulu yng Nghymru, dair i bedair gwaith y flwyddyn i drafod materion yn ymwneud â'r Llys Teulu yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys materion gweithredol yn ogystal â materion strategol. Mae Mr Ustus Francis hefyd yn trefnu ei fod ar gael i fynychu cynadleddau staff Cafcass Cymru a chyflwyno hyfforddiant i gynghorwyr llys teulu.

Cynhelir cyfarfodydd hefyd rhwng Mr Brown a'r tri Barnwr Teulu Dynodedig yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r prif ryngwyneb â'r farnwriaeth ar y lefel hon gyda Phenaeithaid Gweithredu Cafcass Cymru (ar lefel Gradd 7). Mae ffocws y cyfarfodydd hyn yn fwy perthnasol i arferion a gweithdrefnau lleol.

Yn olaf, mae Mr Brown hefyd yn mynychu cyfarfodydd Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol Cymru, sy'n cael ei gadeirio gan Albert Heaney, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, ac mae Mr Ustus Francis a'r tri Barnwr Teulu Dynodedig yng Nghymru yn eu mynychu hefyd. Mae'r Rhwydwaith yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn, ac yn darparu fforwm ar gyfer y partneriaid allweddol sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder

teuluol yng Nghymru i rannu gwybodaeth, trafod pa mor effeithiol y mae'r system yn gweithio, a monitro perfformiad.

Yn ogystal â chadeirio cyfarfodydd y Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol, mae Albert Heaney wedi cyfarfod â Syr Andrew MacFarlane hefyd i drafod materion cyfiawnder teuluol yn fuan ar ôl ei benodi.

Ymhlith yr enghreifftiau eraill mae'r cyswllt presennol rhwng swyddogion yn Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a Syr Andrew MacFarlane ynghylch arweiniad barnwrol y mae Ofsted yn helpu'r Adran Deulu i'w ddatblygu ar gyfer lleoli plant mewn lleoliadau anghofrestredig. Mae AGC yn gweithio i sicrhau y byddai'r arweiniad yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr fel ei gilydd. Yn dilyn ymgysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a HMCTS ynglŷn â Bil Rhentu Cartrefi (Cymru), a'r Ddeddf ddilynol, cyfarfu swyddogion o'r Adran Tai ac Adfywio â'r Barnwr Cylchdaith Seys-Llewellyn a'r Barnwyr Rhanbarth North, Regan a Godwin hefyd. Gan fod y Ddeddf yn gofyn am wneud nifer o newidiadau i'r Rheolau Trefniadaeth Sifil, mae swyddogion wedi bod yn gysylltiedig ag is-grŵp o'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil hefyd, gan gynnwys y Barnwr Milwyn Jarman, a benodwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gynghori'r grŵp.

### *Sylwadau cyffredinol*

Mae'n werth nodi bod y rhyngweithio mwyaf rheolaidd rhwng Llywodraeth Cymru a'r farnwriaeth yn digwydd pan fo gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb datganoledig am bolisi penodol neu gyflawni gweithredol a phan fo barnwyr dynodedig sydd â buddiannau o fewn y maes hwnnw. Gellid disgwyl i ddatganoli cyfiawnder a chreu arweinyddiaeth farnwrol barhaol i Gymru arwain at ryngweithio mwy rheolaidd rhwng Llywodraeth Cymru a'r farnwriaeth ar draws portffolios gweinidogol a meysydd eraill y llywodraeth. Yn wir, mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi gweld manteision arweinyddiaeth farnwrol leol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon o ran y llywodraeth a'r sector cyfiawnder ehangach.

Yn gywir,



**MARK DRAKEFORD**

## Atodiad

### **Papur ar y system ofal, niferoedd y plant sy'n cael eu cymryd i ofal, y gydberthynas â'r farnwriaeth a data ar farnwyr nad ydynt yn dilyn argymhellion ac yn gwneud gorchmynion gofal.**


Mae'r system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr yn cyflawni rôl hanfodol o ran amddiffyn plant sy'n agored i niwed. Mae'n amlwg fod y system – er gwaethaf yr ymdrechion gorau gan y rheini sy'n gweithio oddi mewn iddi – yn ei chael yn anodd ymdopi â'r gofynion a osodir arni. Mae hefyd yn glir o'r adolygiadau a gynhaliwyd y gall diffyg cydlynu a chydweithredu ar adegau rhwng y partiön niferus dan sylw yn aml olygu nad yw'r broses yn gweithio'n iawn. Canolbwyntiodd yr adolygiadau yn helaeth ar annog meddwl a gweithio cydgysylltiedig a chyfathrebu gwell. Mae'n amlwg fod diffyg atebolrwydd yn broblem hefyd.

Mae'r rhaniad artiffisial a mympwyol rhwng yr hyn sydd wedi'i ddatganoli a'r hyn sydd heb ei ddatganoli yn gwaethygu'r problemau hyn. Yn gyntaf, mae'r system cyfiawnder teuluol ei hun yn eistedd ar ymyl pigfain y setliad datganoli. Ac yn ail, mae cymdeithas a llywodraeth fodern yn mynnu nad yw'r system gyfiawnder yn gweithio ar wahân. Wrth ddiwygio'r system cyfiawnder teuluol, mae'n amlwg fod angen i ystod eang o wasanaethau cyhoeddus gynorthwyo'r broses - gwasanaethau sydd bron i gyd wedi'u datganoli. Mae hyn yn golygu bod rhaid i gyrff cyhoeddus sy'n atebol i wahanol feistri gwleidyddol weithio gyda'i gilydd; rhywbeth sydd eisoes yn anodd heb gyfrif am wahaniaethau mewn polisi ac athroniaeth wleidyddol.

Nid dyma'r ffordd y dylem fod yn ceisio gwella bywydau plant yng Nghymru. Rhaid cael atebolrwydd, tryloywder a phenderfyniadau clir ac effeithiol. Nid yw hynny'n bosibl yn y "system" hybrid ac anghyson sydd gennym. Yn hytrach, rhaid datganoli cyfiawnder teuluol i Gymru a dylai Llywodraeth Cymru ddod yn gwbl gyfrifol am blant Cymru, ac yn atebol, yn hyn o beth, i bobl Cymru.

### **Niferoedd y plant sy'n cael eu cymryd i ofal**

Ym mis Mawrth 2018, roedd 6,407 o blant yn derbyn gofal yng Nghymru. Roedd hyn yn gynydd o 8% ar y flwyddyn flaenorol. Dros y 15 mlynedd ddiwethaf, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu 34%.



No of LAC = Nifer y plant

Mae'r Prif Weinidog wedi nodi bod niferoedd cynyddol y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn faes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu yng Nghymru. Mae'n glir fod gormod o blant yn cael eu cymryd oddi wrth eu teuluoedd i'r system ofal yng Nghymru.

Mae'r Prif Weinidog yn cydnabod bod angen ailstrwythuro systemau er mwyn gallu rhyddhau adnoddau i ddarparu'r cymorth cywir i deuluoedd ar ffiniau gofal, gan felly atal yr angen i blant gael eu cymryd oddi wrth eu teuluoedd. Mae'n bwysig cael dull gweithredu sy'n gweithio ar draws systemau i ymdrin â'r mater hwn, fel bod polisi 'plant yn gyntaf' yn cael ei ymgorffori ar draws sectorau.

Mae'r Prif Weinidog wedi amlinellu'r meysydd blaenoriaeth canlynol i'w lleihau:

- Nifer y plant mewn gofal
- Nifer y plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'w sir
- Nifer y plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i Gymru
- Nifer y plant sy'n cael eu tyngu oddi wrth rieni ag anabledd dysgu.

Mae swyddogion yn cydweithio ag awdurdodau lleol unigol i gydgyhyrchu cynlluniau pwrpasol ar gyfer disgwyliadau o ran lleihau, a'r rheini wedi'u teilwra yn unol â'u poblogaethau a'u demograffeg. Rhagwelir y bydd disgwyliadau lleihau yn digwydd dros gyfnod o 3 blynedd, ac y bydd gofyn bodloni disgwyliadau ymhen 12 mis, 24 mis a 36 mis.


Mae trafodaethau ag awdurdodau lleol wedi cael croeso da hyd yma. Amlygodd awdurdodau lleol yn gyson fod rôl allweddol partneriaid, gan gynnwys y farnwriaeth a Cafcass Cymru, yn faes ffocws i gynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni disgwyliadau lleihau.

Mae adborth a thystiolaeth gychwynnol a gafwyd gan awdurdodau lleol wedi dangos, er enghraifft, bod nifer y plant sy'n cael eu gosod gyda rhieni o dan Orchymyn Gofal wedi cynyddu'n sylweddol dros y 3 blynedd ddiwethaf (o 580 yn 2015 i 840 yn 2018). Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud â'r farnwriaeth a Cafcass Cymru i ddeall amharodrydd ymddangosiadol i ddefnyddio gorchmynion goruchwyllo, Adran 76 a chymhwyso'r egwyddor Dim Gorchymyn.

Gwelwyd bod y broses Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, yn anfwriadol, wedi cynyddu nifer y plant yn y system farnwrol ac ymyrraeth statudol. Mae hyn yn ymwneud yn benodol â'r amserlen 26 wythnos. Mae'r defnydd o Adran 76 wedi lleihau'n sylweddol, gan atal awdurdodau lleol rhag rheoli risg yn ddiogel cyn dod ag achosion i'r llys. Mewn achosion o'r fath, mae awdurdodau lleol o'r farn nad ydynt yn cael digon o amser i ymgymryd â gwaith gwednewid gyda theuluoedd cyn dod ag achosion yn ôl i'r llys. I'r gwrthwyneb, mae awdurdodau lleol hefyd yn ymwybodol o feirniadaeth gan y farnwriaeth am ansawdd adroddiadau a thystiolaeth mewn achosion gofal.

Mae'r tablau a ddarperir isod yn dangos yr amrywiad ar draws ardaloedd y tri Barnwr Teulu Rhanbarth yn niferoedd yr achosion fesul plentyn yn cynnwys ceisiadau ar gyfer gorchmynion gofal fesul 100,000 o'r boblogaeth plant leol.


### Ardal Barnwr Teulu Dynodedig Gogledd Cymru




PLATO – Applications for Care Orders = PLATO – Ceisiadau am Orchmyrnion Gofal  
 PLATO – Resulting Care Orders = PLATO – Gorchmyrnion Gofal Dilynol  
 PLATO – Applications for Supervision Orders = PLATO – Ceisiadau am Orchmyrnion Goruchwylio

(This text also applies to the 2 diagrams below)

### Ardal Barnwr Teulu Dynodedig Abertawe a Gorllewin Cymru



## Ardal Barnwr Teulu Dynodedig Caerdydd a De Ddwyrain Cymru



### Cyberthynas â'r farnwriaeth

Caiff ein cydberthynas â'r farnwriaeth ei chynnal yn ffurfiol o dan y Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol. Mae'r Rhwydwaith yn dod â'r bobl allweddol o fewn y system cyfiawnder teuluol at ei gilydd i fonitro perfformiad ac arferion y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru, ac yn darparu fforwm ar gyfer ymgysylltu â Cafcass Cymru a phartneriaid awdurdod lleol ar lefel strategol. Mae'r farnwriaeth yn arsyllwyr ar y Rhwydwaith ac mae ei waith yn ategu, yn cefnogi ac yn llywio gwaith y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol, sy'n cael ei reoli gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar lefel Cymru a Lloegr.

Er bod gan Gymru gynrychiolaeth ar y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol, caiff ei gyd-gadeirio gan Weinidogion o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Adran Addysg. Caiff yr agenda ei rheoli'n bennaf gan Lywodraeth y DU a chan fentrau polisi a ddatblygwyd yn Lloegr. Felly, prin yw dylanwad rôl Cymru fel partner iau mewn proses sy'n cael ei chynllunio ar gyfer Lloegr, efallai gyda gobaith ychwanegol y gallai Llywodraeth Cymru a chyrrff datganoledig wneud i'r broses weithio i Gymru.

### Graddfeydd amser ar gyfer targedau'r Prif Weinidog ynglŷn â phlant sy'n derbyn gofal.

Gofynnwyd i awdurdodau lleol baratoi cynlluniau disgwyliadau lleihau ar gyfer nifer y plant sy'n derbyn gofal dros gyfnod o dair blynedd, ac y bydd gofyn bodloni disgwyliadau ymhen 12 mis, 24 mis a 36 mis. Bydd y rhain yn cwmpasu'r cyfnodau adrodd ar gyfer 2019/20, 2020/21 a 2021/22.

Mae trefniadau monitro wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd, a byddant yn dechrau ym mis Hydref. Rhagwelir y bydd trefniadau adrodd yn digwydd bob chwarter ac ar ddiwedd pob blwyddyn.